# ASIANTAETH CYMORTH CYFREITHIOL

# HYSBYSEB PREIFATRWYDD

## Pwrpas

Mae'r hysbysiad preifatrwydd hon yn gosod y safonau y gellir eu disgwyl gan yr Asiantaeth Cymorth Cyfreithiol pan yr ydym yn gofyn am neu yn cadw gwybodaeth bersonol ('data personol') amdanoch chi; sut allwch chi gael copi o'ch data personol; a beth allwch chi ei wneud os ydych chi'n meddwl nad ydym yn cwrdd â'r safonau.

Asiantaeth Gweithredol y Weinyddiaeth Gyfiawnder (GC) ydy'r Asiantaeth Cymorth Cyfreithiol. Y Weinyddiaeth Gyfiawnder ydy'r rheolwr data ar gyfer y wybodaeth bersonol yr ydym yn ei chadw. GC yw rheolydd data ar gyfer y wybodaeth bersonol rydym yn dal. Mae'r Asiantaeth Cymorth Cyfreithiol yn casglu a phrosesu data personol ar gyfer ymarfer eu swyddogaethau cyhoeddus cysylltiedig. Ein swyddogaeth gyhoeddus yw sicrhau bod eiriolwyr a benodir o dan Ddeddf Cam-drin Domestig 2021 yn cael eu talu.

Mae Deddf Cam-drin Domestig 2021 yn gwahardd croesholi yn bersonol mewn achosion sifil a theuluol lle ceir honiadau o gam-drin domestig. Mae'r Ddeddf hefyd yn darparu ar gyfer penodi gan y llys gynrychiolydd cyfreithiol cymwys ('Eiriolwr Penodedig') i groesholi partïon o dan amgylchiadau cyfyngedig, penodedig lle mae'r gwaharddiad yn berthnasol.

Er mwyn cydymffurfio â rhwymedigaethau penodol o dan y ddeddf, mae'n ofynnol i Wasanaeth Llysoedd a Thribiwnlysoedd Ei Fawrhydi (GLlThEF) ddarparu eiriolwr i chi. Telir am yr eiriolwr hwn o arian a ddyrennir iddynt gan yr Asiantaeth Cymorth Cyfreithiol (ACC).

Ar gyfer hwyluso'r broses hon, bydd yn ofynnol i GLlThEF ac unrhyw eiriolwr a benodir trosglwyddo gwybodaeth benodol amdanoch i'r ACC at ddibenion bilio.

## Am dan wybodaeth bersonol

Mae data personol yn wybodaeth amdanoch chi fel unigolyn. Gall fod eich enw, cyfeiriad neu rif ffôn. Gall hefyd gynnwys gwybodaeth a ddarparwyd yn y ffurflen hon megis eich amgylchiadau ariannol a gwybodaeth yn ymwneud ag unrhyw achos cyfreithiol cyfredol neu flaenorol sydd yn eich parthed.

Rydym y gwybod pwysigrwydd diogelu preifatrwydd cwsmeriaid ag i gydymffurfio gyda deddfau diogelu data. Mi wnawn i amddiffyn eich data personol a dim ond datgelu lle bu yn gyfreithiol i wneud, neu hefo eich caniatâd.

## Mathau gwahanol o ddata personol rydym yn prosesu

Y wybodaeth a gasglwyd amdanoch chi fydd:

- Eich enw
- Eich dyddiad geni
- Eich cyfeiriad
- Eich rhif cyfeirnod Llys/Achos
- Math o achos

- Gwybodaeth am yr eiriolwr sydd yn eich cynrychioli

## Pwrpas prosesu a sail gyfreithlon ar gyfer prosesu

Pwrpas pan fod yr Asiantaeth Cymorth Cyfreithiol yn casglu a phrosesu'r data personol byddech chi yn darparu drwy lenwi'r ffurflen hon yw ar gyfer galluogi darparu cymorth cyfreithiol a threfnu taliad i eiriolwr penodedig o dan Ddeddf Cam-drin Domestig 2021. Ein sail gyfreithlon yw 'cyflawni perfformiad unrhyw dasg o fewn diddordeb y cyhoedd neu ar gyfer awdurdod swyddogol' fel y nodir yn Erthygl 6(1) o GDPR y DU. Y tasgau yw'r rheini a nodir yn Neddf Cam-drin Domestig 2021 a rheoliadau cysylltiedig.

## Gyda phwy y gellid rhannu'r gwybodaeth

Weithiau, bydden ni angen rhannu'r wybodaeth bersonol rydym ni'n prosesu gyda sefydliadau eraill. Pan fydd hyn yn angenrheidiol, bydden ni'n cydymffurfio gyda holl agweddau sydd yn berthnasol i ddeddfau diogelu. Gall y sefydliadau y gallwn rannu eich gwybodaeth bersonol hefo gynnwys:

- Yr eiriolwr penodedig sy'n gweithredu ar eich rhan.
- Y Weinyddiaeth Gyfiawnder ehangach a'i hasiantaethau, gan gynnwys GLlThEF
- Os darperir gwybodaeth ffug neu anghywir neu os nodir twyll, gall yr Asiantaeth Cymorth Cyfreithiol rhannu eich gwybodaeth bersonol gydag asiantaethau atal twyll yn gyfreithlon i ganfod ag atal twyll gwyngalchu arian. Yn benodol, gallwn ni rhannu data gyda CThEF a'r AGPh er mwyn atal, ymchwilio ac erlyn twyll.

Gallwch gysylltu ag ein Swyddog Diogelu Data ar gyfer rhagor o wybodaeth ar y sefydliadau yr ydym yn gallu rhannu eich gwybodaeth bersonol gyda nhw.

## Prosesyddion data

Mae'n bosibl y byddwn ni'n contractio gyda phrosesyddion data trydydd parti i ddarparu gwasanaethau e-bost, gweinyddu systemau, rheoli dogfennau a storio TG. Bydd unrhyw ddata personol a rennir gyda phrosesydd data at y diben hwn yn cael ei lywodraethu gan gymalau contract enghreifftiol o dan gyfraith diogelu data.

## Gwneud penderfyniadau yn awtomatig

Nid ydym yn defnyddio prosesau gwneud penderfyniadau yn awtomataidd yn unig o fewn y diffiniad yn Erthygl 22(1) GDPR y DU. Bydd y penderfyniad cyflawn ar gais am gymorth cyfreithiol neu hawliad am gostau mewn achos cymorth cyfreithiol yn cael ei wneud gan fod dynol bob tro. Gallai hwn fod yn aelod o'n staff, neu'n aelod o staff Darparwr cymorth cyfreithiol sy'n gweithredu o dan awdurdod dirprwyedig yr Asiantaeth Cymorth Cyfreithiol.

## Manylion trosglwyddiadau i drydydd gwledydd ac amddiffyniadau

Mae'n bosibl y drosglwyddir data personol i leoliadau yn yr Ardal Economaidd Ewropeaidd (AEE) lle bod angen ar ein prosesyddion data ar gyfer lletya, storio a chadw copïau wrth gefn diogel o'n gwasanaethau TG. Gwneir trosglwyddiadau cyfryw ar sail penderfyniadau Digonolrwydd rhwng y DU a'r AEE yn unol ag Erthygl 45 GDPR y DU.

## Cyfnod cadw ar gyfer gwybodaeth a gesglir

Ni chaiff eich gwybodaeth bersonol ei chadw am fwy o amser na sy’n angenrheidiol at y dibenion cyfreithlon y gasglwyd a phroseswyd ar eu cyfer. Mae hyn er mwyn sicrhau nad ydy eich gwybodaeth bersonol yn mynd yn wallus, yn heneiddol nac yn amherthnasol. Mae’r Asiantaeth Cymorth Cyfreithiol wedi gosod cyfnodau cadw ar gyfer y wybodaeth bersonol a gasglwn, a gellir gael mynediad i hyn trwy ein gwefan ni:

https://www.gov.uk/government/publications/record-retention-and-disposition-schedules .

Gallwch hefyd gysylltu â'n Swyddog Diogelu Data i gael copi o'n hamserlenni cadw.

Tra byddwn ni’n cadw eich data personol, byddwn yn sicrhau ei fod yn cael ei ddiogelu rhag golled, camddefnydd neu fynediad a datgeliad anawdurdodedig. Unwaith y bydd y cyfnod cadw yn dod i ben, bydd eich data personol yn cael ei ddileu a'i ddinistrio'n barhaol ac yn ddiogel.

## Mynediad i wybodaeth bersonol

Gallwch ddarganfod os ydym yn cadw unrhyw ddata personol amdanoch trwy wneud ‘cais cyrchu gwrthrych’. Os hoffech chi wneud cais cyrchu gwrthrych, cysylltwch â:

Tîm Datgelu – Pwynt post 10.25
Gweinyddiaeth Gyfiawnder
102 Petty France
Llundain
SW1H 9AJ

Data.access@justice.gov.uk

## Tra gofynnwn ni am wybodaeth bersonol

Rydyn ni’n addo i roi gwybod i chi pam mae angen eich data personol chi, dim ond i ofyn am y data personol rydyn ni ei angen, ac i beidio casglu gwybodaeth sy’n amherthnasol neu’n ormodol.

Pan yr ydyn ni’n casglu eich data personol, mae gennym ni gyfrifoldebau, a mae gennych chi hawliau, gan gynnwys:

- Eich bod chi’n gallu tynnu caniatâd yn ôl ar unrhyw adeg, lle mae’n berthnasol;
- Eich bod chi’n gallu gwneud cwyn i’r awdurdod goruchwylio;
- Ein bod ni’n diogelu’r data ac yn sicrhau nad ydy unrhyw berson anawdurdodedig yn cael mynediad iddo;
- Y rennir eich data personol gyda chyrff eraill at ddibenion cyfreithus yn unig;
- Ein bod ni ddim yn ei gadw yn hirach na sy’n angenrheidiol;
- Ein bod ni ddim yn gwneud eich data personol ar gael ar gyfer defnyddion masnachol heb eich caniatâd; ac

- Ein bod ni'n ystyried unrhyw gais i gywiro, atal prosesu neu ddileu eich data personol.

- ## Gallwch chi gael mwy o fanylion ynglŷn â:

- Cytundebau sydd gennym ni gyda chyrff eraill er mwyn rhannu gwybodaeth;

- Amgylchiadau lle gallwn ni rhannu gwybodaeth bersonol heb ddweud wrthoch chi, er enghraifft, i helpu gyda rhwystro neu ganfod troseddau neu i greu ystadegau dienw;

- Ein cyfarwyddiadau i'n staff ni ynglŷn â sut i gasglu, defnyddio neu ddileu eich gwybodaeth bersonol;

- Sut yr ydyn ni'n sicrhau bod y gwybodaeth yr ydyn ni'n ei chadw yn gywir ac yn gyfoes;

- Sut i wneud cwyn.

Am fwy o wybodaeth ynglŷn â'r materion uchod, cysylltwch â swyddog diogelu data y Weinyddiaeth Gyfiawnder:

Y Swyddog Diogelu Data
Gweinyddiaeth Gyfiawnder
102 Petty France
Llundain
SW1H 9AJ

dataprotection@justice.gov.uk

## Cwynion

Pan yr ydym yn gofyn i chi am wybodaeth, byddwn yn cadw at y gyfraith. Os ydych yn ystyried bod eich gwybodaeth wedi cael ei thrin yn anghywir, gallwch gysylltu â'r Comisiynydd Gwybodaeth ar gyfer cyngor annibynnol ynglŷn â diogelu data. Gallwch gysylltu â'r Comisiynydd Gwybodaeth ar:

Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth
Wycliffe House
Water Lane
Wilmslow
Swydd Gaer
SK9 5AF
Ffôn: 0303 123 1113
www.ico.org.uk